# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 08.012.14

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Tudor Owen (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Angela Russell a Dilwyn Lloyd

**Eraill a wahoddwyd**: Cynghorydd Elfed Williams (Aelod Lleol)

**Hefyd yn Bresennol:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan Williams (Rheolwr Trwyddedu), Eirlys Jones (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.**

## 4. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A. am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Eglurwyd bod datganiad o gollfarn yn cyfeirio at drosedd perthnasol ac felly gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, ac yn unol â'r canllawiau ar droseddau a chollfarnau perthnasol. Derbyniwyd hefyd lythyr yn mynegi geirda i'r ymgeisydd gan yr Aelod Lleol a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Nododd yr ymgeisydd iddo fod adref ers misoedd yn dilyn damwain a'i fod yn edrych ymlaen at gael dechrau gweithio a rhoi trefn are i ddiwrnod. Eglurodd ei fod yn yrrwr profiadol ac yn awyddus i ail gydiad yn yr yrfa honno. Nodwyd hefyd bod cwmni, E Cabs, yn ymddangos yn fodlon ei gyflogi fel gyrrwr tacsi.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'r Aelod Lleol o'r siambr tra y bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Cymerodd yr Is-bwyllgor i ystyriaeth ganllawiau'r Cyngor am droseddau perthnasol i'r cais:
Ar ôl ystyriaeth fanwl, penderfynodd yr Is-bwyllgor ei bod yn briodol caniatáu y cais..

**PENDERFYNWYD caniatau cais Mr A am drwydded hacni/hurio preifat.**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu i anfon llythyr yn hysbysu'r ymgeisydd o benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Dechreuodd y cyfarfod am 3:45pm a daeth i ben 4:20pm